COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 28 HYDREF 2021, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | N Clarke | DK Edwards | A Hussain |
| DRW Lewis | JC Radcliffe | RME Stirman | MC Voisey |
| KJ Watts | RE Young | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins, SK Dendy, RM Granville, MJ Kearn, JC Spanswick a/ac CA Webster

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gareth Denning | Arweinydd Tîm Polisi |
| Mark Galvin | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Dros dro |
| Brett Holdsworth | Strategic Planning Officer |
| Rod Jones | Uwch Cyfreithiwr |
| Louis Pannell | Uwch Swyddog Polisi Cynllunio Strategol |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Adam Provoost | Uwch Swyddog Cynllunio Datblygu |
| Andrew Rees | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

531. Y CYNGHORYDD P J WHITE

Gyda thristwch y cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth ddiweddar y Cynghorydd P J White; byddai cydymdeimlad y Pwyllgor yn cael ei gyfleu i deulu'r Cynghorydd White. Gofynnodd y Cadeirydd i bawb oedd yn bresennol gynnal dau funud o ddistawrwydd a myfyrdod tawel.

Cadwodd pawb oedd yn bresennol ddau funud o ddistawrwydd fel arwydd o barch.

532. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim.

533. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 30 Medi 2021 fel cofnod gwir a chywir.

534. SIARADWYR CYHOEDDUS

Nid oedd dim siaradwyr cyhoeddus.

535. TUDALEN DIWYGIADAU

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn derbyn Taflen Ddiwygiadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefnau'r Cyngor, i'r Pwyllgor allu ystyried newidiadau angenrheidiol i adroddiad y Pwyllgor,

er mwyn cymryd i ystyriaeth rai sylwadau ac adolygiadau hwyr yr oedd angen eu trafod.

536. ARWEINIAD Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD: Nodi'r crynodeb o Arweiniad y Pwyllgor Rheoli Datblygu fel y'i cyflwynwyd yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau.

537. P/20/953/FUL - PARC GWERSYLLA A THEITHIO BRODAWEL, MOOR LANE, PORTHCAWL, CF36 3EJ

PENDERFYNWYD: Gohirio ystyried y cais nes derbyn ateb i gais am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd; adroddir am y cais mewn cyfarfod yn y dyfodol.

538. DIWYGIADAU I BROTOCOLAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU.

Adroddodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu ("Rheolwr y Grŵp") ar newidiadau arfaethedig i'r gweithdrefnau oedd yn ymwneud â'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, a fu'n destun trafodaeth yn y gweithdy a gynhaliwyd ar 29 Medi 2021. Hysbysodd y Pwyllgor fod y Cod Ymarfer Cynllunio cyfredol wedi'i fabwysiadu gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ym mis Ebrill 2017, a'i fod yn cynnwys trefniadau ar gyfer y protocol archwilio safle, siarad cyhoeddus a'r cynllun dirprwyo cyfredol.

Adroddodd ar gynnig i gadw nifer y gwrthwynebwyr sy'n ofynnol, cyn adrodd i'r pwyllgor am ddeiliad tŷ / cais bychan, yn fwy na 2, sef 3 gwrthwynebydd neu fwy, ond cynyddu'r nifer ofynnol o wrthwynebwyr ar gyfer unrhyw fath arall o gais i fwy na 4, sef 5 neu fwy. Cynigiwyd hefyd trin gwrthwynebiadau a gâi eu mynegi dro ar ôl tro gan wahanol aelodau o'r un teulu fel un gwrthwynebiad cymydog. Dywedodd y câi deisebau eu hystyried ar sail cryfder/gwerth/teilyngdod y gwrthwynebiadau a godwyd a phwysau'r gwrthwynebiad i gynllun neilltuol, yn enwedig yn oes y cyfryngau cymdeithasol.

Adroddodd Rheolwr y Grŵp hefyd ar gynnig i gynyddu'r amser siarad ar gyfer siarad yn gyhoeddus o'r 3 munud presennol i 5 munud i wrthwynebwyr / Aelodau / Cynghorwyr Tref neu Gymuned / ymgeiswyr / asiantau. Amlinellodd gynnig i ganiatáu i ddau wrthwynebwr siarad am 2½ munud yr un mewn achos lle roedd ganddynt bwyntiau gwahanol i'w codi. Pe bai dau wrthwynebwr yn cytuno i rannu'r 5 munud o amser siarad rhyngddynt, byddai ymgeiswyr / asiantau yn dal i gael yr un faint o amser i gyd (5 munud) ar gyfer ymateb i sylwadau'r gwrthwynebwyr. At hynny, roedd y Gweithdy wedi ystyried y dylai fod yn bosibl gofyn cwestiynau technegol / canfod ffeithiau i'r asiant / ymgeisydd, pe bai aelod o'r Pwyllgor yn dymuno gwneud hynny. Gallai'r asiant / ymgeisydd wedyn egluro pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor ond ni fyddai'r broses hon yn gyfle i gyflwyno sylwadau pellach i'r pwyllgor. Dim ond gyda chytundeb Cadeirydd y Pwyllgor ("y Cadeirydd") y gellid gofyn unrhyw gwestiynau o'r fath i'r asiant / ymgeisydd. Yn yr un modd, gallai'r Aelodau hefyd holi gwrthwynebwyr, gyda chytundeb y Cadeirydd, ar unrhyw bwyntiau oedd yn codi o'u hanerchiad i'r pwyllgor i egluro unrhyw bwyntiau o natur dechnegol / canfod ffeithiau.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp y cytunwyd yn y Gweithdy, pan gâi cais ei ohirio ar ôl i'r siarad cyhoeddus ddigwydd, na ddylid clywed siaradwyr cyhoeddus ar yr ail achlysur y deuai'r cais gerbron y Pwyllgor oni bai bod y gohirio wedi arwain at broses ymgynghori newydd neu ofyniad am gynllun diwygiedig. Fodd bynnag, yn ôl disgresiwn y Cadeirydd mewn ymgynghoriad â Rheolwr y Grŵp a'r Rheolwr Datblygu ac Adeiladu, gellid caniatáu i siaradwyr cyhoeddus annerch y Pwyllgor ar eitem a ohiriwyd o gyfarfod cynharach.

Adroddodd Rheolwr y Grŵp ar y broses gyfredol ar gyfer sylwadau hwyr, lle mae sylwadau a dderbynnir erbyn 4p.m. y diwrnod cyn y Pwyllgor yn cael eu hadrodd ar y Daflen Ddiwygiadau a gylchredwyd i'r Pwyllgor cyn dechrau'r cyfarfod. Dywedodd na ddylai Aelodau, o dan y Cod Ymarfer, geisio cyflwyno dogfennaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor lle nad yw'r Swyddog Cynllunio wedi cael cyfle i ystyried y cynnwys, er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n derbyn cyngor cywir a ystyriwyd yn briodol. Hysbysodd y Pwyllgor na fyddai sylwadau hwyr yn cael eu derbyn ar ôl diwedd oriau gwaith ar y dydd Mawrth cyn cyfarfod y pwyllgor. Cydnabyddid y gallai sylwadau diweddarach gynnwys pwyntiau cynllunio dilys o bwys, y dylid eu hystyried a'u cynnwys yn y daflen ddiwygiadau ac, er mwyn osgoi oedi diangen drwy ohirio, lle gallai'r swyddog cynllunio roi cyngor ystyriol i'r Aelodau ar y sylwadau hynny, y gellid eu cyflwyno i'r Aelodau yn ôl disgresiwn Rheolwr y Grŵp. Ni ddylai aelodau roi unrhyw bwys arbennig ar gyflwyniadau hwyr a roddir yn uniongyrchol iddynt yn lle'r Awdurdod Cynllunio Lleol, lle nad ydynt yn cynnwys unrhyw beth newydd neu'n gwneud pwynt heb unrhyw dystiolaeth glir. Dywedodd y dylid trosglwyddo unrhyw sylwadau, a anfonid yn uniongyrchol at aelodau'r Pwyllgor gyda'r nos neu'r bore cyn y cyfarfod a drefnwyd, i'r Swyddogion i'w hychwanegu at y ffeil.

Adroddodd Rheolwr y Grŵp ar y sail dros alw am ymweliadau safle, sy'n ymarferion canfod ffeithiau ac yn cael eu galw pan fo gwrthwynebiad cynllunio pwysig. Dywedodd fod yn rhaid i gais am ymweliad safle gael ei wneud gan aelod y ward leol ar ôl iddo ymgynghori ar y datblygiad arfaethedig, yn ysgrifenedig neu'n electronig, cyn pen 21 diwrnod i gael gwybod am y cais, gan nodi'n glir y rhesymau cynllunio pwysig dros yr ymweliad. Y Cadeirydd fydd y canolwr lle na fydd yn bosibl trefnu ymweliad safle oherwydd rheidrwydd, diogelwch a hwylustod. Hysbysodd y Pwyllgor y byddai swyddogion yn parhau i ymweld â safleoedd lle bo'n ddiogel i wneud hynny. Dywedodd mai'r farn yn y gweithdy diweddar oedd nad oedd angen ymweliadau safle gan y Panel mwyach. Byddai ymweliadau safle yn digwydd o 9.30a.m. y diwrnod cyn y Pwyllgor. O ystyried y cyfyngiadau cyfredol, byddai'n anodd iawn cynnal ymweliadau safle llawn ac y byddai'r swyddogion mewn gwell sefyllfa i gynghori ynghylch y posibilrwydd i'r pwyllgor llawn ailddechrau ymweld â safleoedd ac unrhyw asesiadau risg unigol. Dywedodd fod yn rhaid i unrhyw un fyddai'n cymryd rhan mewn ymweliad safle llawn gynnal asesiad risg unigol ac, os byddai'n sgorio'n uchel, y cam lliniaru fyddai ei fod yn aros gartref. Atgoffodd y Pwyllgor o'r penderfyniad a wnaeth ar 17 Medi 2020 i atal ymweliadau safle llawn dros dro a chynnal ymweliadau rhithwir â safleoedd, neu gael Paneli estynedig, yr oedd y Cadeirydd yn eu hystyried yn hanfodol. Dylid cynnal ymweliadau safle o dan y protocol diwygiedig, y dylid ei ymestyn nes y caniateir ailddechrau ymweld â safleoedd yn gorfforol.

PENDERFYNWYD:

1. Cytuno ar y newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer, y Cynllun Dirprwyo, y Protocol Arolygu Safle a Threfniadau Siarad Cyhoeddus yn y Pwyllgor.
2. Bod y newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r cynllun dirprwyo.
3. Bod y protocol a'r newidiadau yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd.
4. Bod y newidiadau dros dro ar gyfer ymweliadau safle yn aros yn eu lle am gyfnod heb fod yn hwy na 12 mis o ddyddiad y penderfyniad neu pan fyddai cyfyngiadau Covid 19 wedi cael eu codi'n llwyr, p'un bynnag fyddai'r cynharaf.

539. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL (AMB) 2021 AR GYFER CYNLLUN DATBLYGU LLEOL PEN-Y-BONT AR OGWR (CDLL) 2006 - 2021

Adroddodd y Prif Swyddog Polisi Cynllunio Strategol ar ganfyddiadau Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) 2021, gan nodi'n benodol fod yr ymgais i gyflenwi tai yn methu â chadw i fyny â'r gofyn am dai a bod angen brys am ddyraniadau tai newydd y gellid eu

cyflawni i leddfu’r pwysau cynyddol i gyflenwi tai. Dywedodd ei bod yn hanfodol bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn parhau i symud ymlaen gyda'r adolygiad statudol o'r CDLl, er mwyn atal datblygiad ad-hoc rhag dod ymlaen y tu allan i system y cynllun datblygu.

Adroddodd fod yn rhaid cyflwyno AMB 2021 i Lywodraeth Cymru cyn 31 Hydref 2021 ac mai ei nod oedd asesu i ba raddau yr oedd Strategaeth a Pholisïau'r CDLl yn cael eu cyflawni. Dywedodd fod gan yr AMB ddwy brif swyddogaeth; yn gyntaf ystyried a oedd y polisïau a nodwyd yn y broses fonitro yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus; ac, yn ail, ystyried y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn erbyn yr holl wybodaeth a gasglwyd er mwyn penderfynu a oedd angen adolygiad cyflawn neu rannol o'r Cynllun.

Dywedodd mai canfyddiadau allweddol yr AMB oedd diffyg blynyddol mewn cyflenwi tai, lle roedd 300 o anheddau'r flwyddyn yn llai nag a ddisgwylid wedi cael eu cwblhau. Roedd 2,920 o anheddau yn brin ymhlith y tai a gyflawnwyd mewn perthynas â'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnus, tra roedd 111 o unedau tai fforddiadwy wedi'u hadeiladu ac 1.46 hectar o dir gwag wedi'i ddatblygu yn ystod y flwyddyn. Amlinellodd gyfraddau eiddo masnachol gwag yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl a Maesteg. Hysbysodd y Pwyllgor fod y Cabinet wedi cymeradwyo Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr drafft ar 15 Rhagfyr 2020 ac, ers ei gymeradwyo, bod angen wedi'i nodi am 6 llain arall. Dywedodd y byddai unrhyw angen nas diwallwyd am safleoedd yn cael ei ddiwallu drwy'r CDLl Newydd.

Adroddodd hefyd fod Adroddiad Adolygu’r CDLl (2018) eisoes wedi cydnabod angen brys i fynd i’r afael â’r diffyg yn y cyflenwad tir ar gyfer tai drwy nodi safleoedd tai ychwanegol. Roedd y diffyg yn y cyflenwad tai yn fwy difrifol fyth erbyn hyn ac yn methu â chadw i fyny â'r gofyn am dai. Dywedodd ei fod yn fater sylfaenol bod digon o safleoedd y gellid adeiladu arnynt yn cael eu cynnwys yn y CDLl Newydd er mwyn lleddfu’r pwysau cynyddol ar y cyflenwad tai neu, fel arall, y byddai’r bwlch rhwng nifer y tai a gâi eu cyflenwi a’r nifer yr oedd galw amdanynt yn parhau i ledu a byddai angen safleoedd tai ychwanegol er mwyn sicrhau bod modd cyflawni gofynion tai y Fwrdeistref Sirol. Hysbysodd y Pwyllgor y gallai methu â gweithredu hefyd arwain at ‘gynllunio drwy apêl’ ac y byddai datblygiadau ad-hoc yn dod ymlaen nad oeddent yn unol â strategaeth y Cynllun.

Daeth i'r casgliad bod canfyddiadau'r AMB yn rhoi cyfle pwysig i'r Cyngor asesu effeithiolrwydd y CDLl mabwysiedig a phenderfynu a oedd angen ei adolygu. Dywedodd fod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn bwrw ymlaen ag adolygiad statudol y CDLl, fydd yn mynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad tai ac yn hwyluso adnabod / dyrannu tir ychwanegol ar gyfer tai. Hysbysodd y Pwyllgor fod dros 1,200 o ymatebion wedi'u derbyn i'r CDLl drafft a bod y rhain yn cael eu hadolygu gan swyddogion. Dywedodd fod angen buddsoddiad pellach yn yr economi leol ac y byddai’r CDLl Newydd yn ysgogi rhai i fanteisio ar dir cyflogaeth newydd, safleoedd defnydd cymysg a chyfleoedd adfywio (gan gynnwys safleoedd sydd ym mherchnogaeth y Cyngor). Byddai hyn yn dod â chynlluniau, uwchgynlluniau a briffiau datblygu newydd ymlaen i wneud datblygu’n bosibl. Dywedodd fod angen dybryd i symud y CDLl Newydd tuag at ei fabwysiadu er mwyn sicrhau y gellid cyflawni gofynion tai’r Fwrdeistref Sirol ac atal y bwlch rhwng nifer y tai a gyflenwir a’r nifer y mae gofyn amdanynt rhag ehangu ymhellach.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

540. <u>COFNOD HYFFORDDIANT</u>

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau ar y Log Hyfforddi a ddiweddarwyd i gael ei nodi.

541. EITEMAU BRYS

Nid oedd eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:30